



Canllaw i werthuso

Amcan gwerthuso yn y Gronfa Loteri Fawr

Rydym yn credu bod gwerthuso'n broses sy'n defnyddio gwybodaeth fonitro a gwybodaeth arall sydd wedi'i chwain at ddibenion dysgu a gwella, i'n helpu i ddeall sut a pham rydym yn gwneud gwahaniaeth a sut y gallwn ymgorffori gwersi a ddysgwyd yng nghynlluniau'r dyfodol.

Un o'n hegwyddorion ni yw bod yn gatalydd, helpu'r prosiectau a ariannwn i gywain a defnyddio tystiolaeth i ddysgu o'r hyn y maen nhw ac eraill wedi'u gwneud a'u helpu nhw i efelychu llwyddiant ac osgoi maglau tebyg. Yn ei dro, rydym yn defnyddio'r dystiolaeth a dysgu hyn i gyfeirio penderfyniadau ariannu'r dyfodol.

Cyflwyniad

Yn y Gronfa Loteri Fawr, rydym yn cydweithio â'r sector, y rhai a ariannwn, arianwyr eraill a'r rhai sy'n llunio polisi i gyflwyno prosiectau o safon a rhannu arfer gorau a dysgu.

Mae gwneud hyn gyda'n gilydd yn ein helpu i fwyafu effaith ein gwaith. Hefyd, mae'n helpu ni i gyflawni ein cenhadaeth, i gefnogi'r bobl a chymunedau mewn angen mwyaf.

Un ffordd yr ydym yn gwneud hyn yw trwy werthuso. Rydym yn credu bod gwerthuso'n rhan allweddol o unrhyw brosiect sydd o ddifrif am wneud gwir wahaniaeth. Nid yw'r farn hon yn unigryw i ni'n unig. Mae'r rhan fwyaf o asiantaethau ariannu'n rhoi pwyslais ar ddeall effaith, neu ddiffyg effaith, yn sgil prosiectau, a deall pam.

Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i feddwl am fuddion gwerthuso'ch prosiect a sut i gychwyn arni. Ni fwriedir iddo fod yn ddogfen 'sut i' gynhwysfawr.

Ar ddiwedd y canllaw hwn, rydym yn darparu mwy o ddolenni i rai mudiadau sy'n darparu gwybodaeth fanylach am sut i gynnal gwerthusiad ac offer y gallech, o bosib, ei ddefnyddio.

Cyflwyniad i werthuso

Beth yw gwerthuso?

Yn gyffredinol, mae gwerthuso'n ymwneud â chywain a defnyddio data i ateb eich cwestiynau'ch hun am ansawdd, gwerth a chyfeiriad eich gwaith, a rheoli a gwella'r hyn a wnewch.

Mae gwerthuso'n ateb cwestiynau megis:

- Pa wahaniaeth a ddaeth yn sgil y prosiect hwn, ar gyfer pwy a pham?
- Beth a weithiodd yn dda, ar gyfer pwy, ym mha amgylchiadau, pryd a pham?
- A ddigwyddodd unrhyw beth nad oeddech yn disgwyl iddo ddigwydd?
- Petaech yn rhedeg y prosiect hwn eto, beth fydddech, o bosib, yn ei wneud yn wahanol?
- Ydy'r prosiect ar y trywydd iawn i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir?
- Ydy'r prosiect yn dangos gwerth am arian?

Mae gwerthuso'n broses esblygol, a gellir adeiladu ar ddysgu a'r canfyddiadau a'u defnyddio trwy gydol oes prosiect i addasu a gwella'r prosiect.

Iaith gwerthuso

Monitro: Yn aml mae'r broses hon yn ymwneud â rhifau ac yn cael ei gweld fel proses barhaus sy'n ymwneud â chywain gwybodaeth allweddol am brosiect yn rheolaidd.

Allbynnau: cynnyrch, gwasanaethau neu gyfleusterau sy'n deillio o weithgareddau mudiad neu brosiect.

Canlyniadau: y gwahaniaeth a wnewch: newidiadau, buddion, dysgu neu effeithiau eraill sy'n deillio o'r hyn y mae'r prosiect neu fudiad yn ei wneud, cynnig neu ddarparu.

Effaith: effeithiau ehangach neu dymor hwy allbynnau, canlyniadau a gweithgareddau mudiad.

Hunanwerthuso: mewn rhai o ddogfennau'r Gronfa Loteri Fawr byddwch yn darllen am 'hunanwerthuso' ac wrth hynny rydym yn golygu 'gwerthusiad prosiect a gyflawnir neu a gomisiynir gan y rhai sy'n rhedeg y prosiect'.

I ddod o hyd i fwy o ddiffiniadau i dermau a ddefnyddir yn gyffredin wrth siarad am werthuso, ewch i jargonbusters.org.uk

Pam gwerthuso?

Mae gwerthuso ar eich cyfer chi, i'ch helpu gwella'ch prosiect ac i'ch helpu i ddeall sut a pham rydych yn gwneud gwahaniaeth.

Mae'n amlygu cyflawniadau ynghyd â meysydd i'w datblygu trwy:

- ymchwilio i'r rhesymau pam mae pethau (neu pam nad yw pethau) yn gweithio'n dda
- adnabod unrhyw ganlyniadau anfwriadol (cadarnhaol a negyddol)
- helpu chi i rannu'ch dysgu gydag eraill
- helpu pobl sy'n ymwneud â'r prosiect i ddatblygu eu sgiliau a dysgu o'u profiadau
- creu diwylliant o fyfyrddod a dadansoddi o fewn eich mudiad sy'n helpu pobl i wella ansawdd eu gwaith a'ch gwasanaethau
- cywain gwybodaeth a fydd yn eich helpu chi i adrodd i arianwyr ac eraill am ddylanwad ac effaith eich prosiect, yr hyn rydych wedi'i ddysgu ar hyd y ffordd a sut rydych wedi'i addasu i amgylchiadau newidiol

Gall tystiolaeth sydd wedi'i chywain trwy gydol cylch bywyd gwerthusiad fod yn ddefnyddiol hefyd i gefnogi ceisiadau ariannu yn y dyfodol cyn diwedd ariannu'r prosiect a helpu osgoi'r posibilrwydd o fylchau rhwng ariannu.

Mae rhai o'n rhaglenni ariannu'n mynnu eich bod yn darparu adroddiadau gwerthuso yn y cam ymgeisio, yn enwedig os ydych yn ymgeisio am arian parhad. Bydd ein nodiadau arweiniad ar gyfer y rhaglen yn egluro'r prosesau sy'n gysylltiedig â'ch prosiect.

Sut mae gwerthuso'n ymwneud â monitro?

Mae monitro'n golygu casglu gwybodaeth fel mater o drefn mewn dull y cytunwyd arno rhyngoch chi a'r ariannwr ar ddechrau eich grant. Mae monitro yn y Gronfa Loteri Fawr yn canolbwyntio ar gynnydd tuag at gyflawni'ch canlyniadau prosiect. Mae'r cynnydd hwn wedi'i nodi gan gamau (o'r enw 'cerrig milltir' neu 'ddangosyddion'), gyda phrosiectau'n cynnwys amserlenni ar gyfer cyrraedd pob carreg filltir. Mae data a gesglir trwy fonitro rheolaidd hefyd yn gosod cyd-destun ar gyfer unrhyw waith gwerthuso a wnewch.

Mae gwerthuso'n mynd ymhellach ac yn ddyfnach na monitro. Mae gwerthuso'n cofnodi cryfderau a heriau'r prosiect ac yn archwilio pam a sut y cyflawnwyd rhai canlyniadau penodol (neu pam na chawsant eu cyflawni). Hefyd, mae'n archwilio ansawdd a gwerth y prosiect, ac yn bwysicaf yn mesur y gwerth a'r arwyddocâd i'r sawl y bwriadwyd iddo effeithio arnynt (ac eraill yr effeithiwyd arnynt)?

Nodi'r gwahaniaeth rhwng monitro a gwerthuso - astudiaeth achos

Ystyriwch ardd gymunedol, er enghraifft.

Gallai monitro gywain gwybodaeth fel faint o bobl a weithiodd yn yr ardd, nifer yr oriau gwirfoddoli a gyfrannwyd, nifer y sesiynau gardd gymunedol a gynhaliwyd bob wythnos a faint o arian a wnaed o werthu'r cynnyrch o'r ardd.

Gallai gwerthuso anelu at fesur y gwerth cymdeithasol yr anelodd y prosiect at ei ychwanegu. Gallai hyn gynnwys p'un a oedd yr ardd gymunedol wedi lleihau teimladau o unigedd ac unigrwydd yn y gymuned ai beidio, gwneud y lleoliad yn fwy atyniadol i ymwelwyr, ac adnabod y gweithgareddau yr oedd buddiolwyr wedi'u mwynhau mwyaf a sut y gallai'r prosiect ehangu'r hyn y mae'n ei gynnig yn y dyfodol.

Cynllunio gwerthuso'ch prosiect

Gwerthuswch o'r cychwyn cyntaf

Dylai gwerthuso fod yn rhan o'r cynllunio o'ch cychwyn cyntaf er mwyn i chi ddysgu ohono sut i gyflwyno'ch prosiect yn fwy effeithiol. Os byddwch yn cofnodi data a gwybodaeth dim ond tua diwedd y prosiect mae'n bosib y byddwch yn colli pwyntiau dysgu sylweddol. Hefyd, mae'n bosib na fydd effaith lawn y prosiect yn cael ei deall gan nad oes gennych ddata o ddechrau'r prosiect i gymharu.

Bydd gwneud hyn o'r cychwyn cyntaf yn eich helpu i ennyn cefnogaeth staff a budd-ddeiliaid gan mai'r gobaith yw y byddant yn ei weld fel rhan o'r prosiect, nid dim ond gwaith ychwanegol. Bydd yn rhoi cyfle i'ch defnyddwyr fwydo i mewn i'r prosiect a'i ddatblygu o'r dechrau.

Byddwch yn glir ynghylch yr hanfodion

Pam, beth, pwy a phryd

- Pam ydych chi'n cynnal y gwerthusiad hwn?
- Sut ydych chi'n gobeithio elwa ohono? E.e. ei ddefnyddio i gywain dysgu ar gyfer gwella prosiectau ac/neu i fonitro effaith y prosiect
- Pa gwestiynau fydd y gwerthusiad yn eu hateb? A fydd y gwerthusiad yn adeiladu ar ymchwil arall neu gysylltu â hi?
- Pwy arall gallai fod angen i chi eu cynnwys yn y gwerthusiad? E.e. budd-ddeiliaid allweddol, y gymuned a'r bobl sy'n defnyddio'ch prosiect a gwasanaethau
- Pwy arall a allai fod â diddordeb mewn canlyniadau'ch gwerthusiad?
- Pryd y mae angen i chi gael canlyniadau? Oes angen i chi ddysgu wrth symud ymlaen? Oes angen i chi wybod am effaith derfynol? Oes dyddiadau allweddol erbyn pryd y bydd angen i chi fod â rhai canfyddiadau gwerthuso?

Gwnewch gynllun

Yn ogystal â'r hanfodion a restrir uchod, dyma ychydig o bethau y credwn y dylech eu hystyried wrth i chi ddechrau datblygu cynllun gwerthuso:

- Sut byddwch chi'n cynnal eich gwerthusiad? E.e. pa ddulliau gallech chi eu defnyddio?
- Sut byddwch chi'n bwydo gwersi sy'n dod i'r amlwg yn ôl i waith a chyfeiriad y prosiect?
- Faint byddwch chi'n ei wario ar y gwerthusiad, a sut byddwch chi'n gwybod p'un a yw hyn yn briodol ai beidio? Ydy graddfa'r gwerthusiad yn gymesur â maint y prosiect?
- Sut caiff adroddiadau neu ganlyniadau eraill y gwerthusiad eu cyfathrebu a'u rhoi ar waith?

Penderfynwch pwy a ddylai gyflawni'ch gwerthusiad

A fydd tîm y prosiect yn cyflawni'r gwerthusiad neu a fyddwch chi'n comisiynu gwerthuswyr allanol?

Wrth benderfynu pwy a ddylai gyflawni'ch gwerthusiad, mae'n bwysig ystyried:

- p'un a oes gan staff y sgiliau angenrheidiol ac a fydd/sut bydd hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol yn cael eu darparu
- cost comisiynu gwerthuswr annibynnol yn erbyn y gost i'r prosiect o ran amser a sgiliau staff

Manteision gwneud hunanwerthusiad eich hun:

- Mae gennych chi a'ch staff wybodaeth fanwl am sut mae eich mudiad yn gweithio
- Rydych yn sensitif i anghenion eich prosiect a'i ddefnyddwyr
- Mae'n galluogi i'ch staff ddysgu sgiliau newydd
- Mae'n annog myfyrio a dysgu gweithredol gan y rhai sy'n cymryd rhan, sy'n fwy tebygol o arwain at newid yn eich mudiad

Manteision comisiynu asiantaeth allanol i wneud eich gwerthusiad:

- Bydd y gwerthusiad yn cymryd llai o amser staff
- Mae'n bosib y bydd pobl yn fwy parod i siarad â gwerthuswyr annibynnol am y prosiect
- Mae'n bosib y bydd gwerthuswyr annibynnol yn ei chael hi'n haws nodi gwendidau
- Mae'n osgoi gwrthdaro buddiannau gan fod y gwerthuswyr yn annibynnol
- Bydd gwerthuswyr annibynnol yn dod â sgiliau arbenigol gyda nhw
- Mae rhai arianwyr, ond nid pob un, yn edrych yn fwy ffafriol ar werthuswyr allanol

Cynnwys buddiolwyr

Dylai pwy bynnag sy'n gwneud eich gwerthusiad gynnwys eich buddiolwyr yn gymaint â phosib. Mae gwerthuso'n ffordd dda o ennyn diddordeb pobl yn eich prosiect. Mae'n galluogi nhw i weld eich prosiect o safbwynt gwahanol. Mae'n helpu defnyddwyr i ennill sgiliau newydd, yn eu galluogi nhw i bennu ffurf gwasanaethau a gall hwyluso ymrwymiad ychwanegol at y prosiect.

I gael mwy o wybodaeth am gynnwys buddiolwyr yn eich prosiectau a'ch gwerthusiad, ewch i biglotteryfund.org.uk/research/making-the-most-of-funding/involving-beneficiaries

Dyrannwch adnoddau penodol

Mae'n bwysig bod gennych ddigon o arian ac amser staff yn benodol ar gyfer cefnogi a chyflawni'r gwerthusiad.

Gallai hyn gynnwys amser ac adnoddau y mae eu hangen ar gyfer:

- cynllunio a rheoli'r gwerthusiad
- mynychu hyfforddiant i gynyddu sgiliau staff mewn dulliau gwerthuso
- cywain data a gwybodaeth arall am y prosiect a'i ganlyniadau
- cyfathrebu'r canfyddiadau

Dylai prosiectau sydd â mwy o adnoddau fedru cyflawni darn helaethach o waith. Gallai grantiau llai (e.e. y rhai hyd at £10,000) ganolbwyntio ar ychydig o bethau allweddol maen nhw eisiau dysgu amdanynt. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn annog prosiectau i neilltuo hyd at 10 y cant o'u cyllideb tuag at fonitro a gwerthuso. Rydym yn annog ymgeiswyr i ystyried hyn cyn llunio eu cais.

Gwerthusiadau a gomisiynwyd gan y Gronfa Loteri Fawr

Yn aml rydym yn comisiynu gwerthusiadau o'n rhaglenni ariannu. Ni ddylai'r gwerthusiadau hyn ddisodli'ch gwerthusiad prosiect eich hun.

Fel arfer cyflawnir ein gwerthusiadau ar lefel y rhaglen gan contractwyr allanol ac maent yn edrych ar draws prosiectau lluosog. Rydym yn defnyddio'r canfyddiadau o'r gwerthusiadau hyn i wella'r ffordd a ariannwn ac i rannu dysgu ag eraill.

Mae'n bosib y byddwn yn gofyn am eich cymorth gyda'r gwerthusiadau hyn. Er enghraifft, gyda:

- **Bod yn astudiaeth achos**
Mae'n bosib y bydd ein gwerthuswyr am siarad â chi ynglŷn â'ch prosiect, er mwyn cywain dysgu ar gyfer y rhaglen ehangach. Mae buddion cael eich cynnwys fel astudiaeth achos yn cynnwys barn annibynnol am ganlyniad, effaith ac ansawdd eich prosiect a deall sut mae'n cymharu â phrosiectau eraill.
- **Cywain data penodol**
Mae'n bosib y bydd ein gwerthuswyr yn gofyn i chi gywain data penodol ar ddechrau a thrwy gydol bywyd eich prosiect. Mae cywain data safonol neu gyffredin fel hyn yn galluogi chi i gymharu'ch gwaith yn erbyn pobl eraill sy'n gwneud gweithgareddau tebyg neu'n anelu at ganlyniadau tebyg, ac mae'n ein helpu ni i greu darlun o effaith ar draws ein hariannu.

- **Cyfrannu'ch gwerthusiad prosiect**

Mae'n bosib y bydd ein gwerthuswyr yn gofyn am weld y gwerthusiad o'ch prosiect er mwyn dadansoddi materion penodol neu rannu'ch dysgu'n ehangach.

Bydd unrhyw ddata rydych yn ei ddarparu ar gyfer ein gwerthuswyr yn ddienw yn cael ei gadw ar wahân i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gennym ni at ddibenion monitro a rheoli grantiau. Er nad yw ein holl raglenni ariannu'n comisiynu gwerthusiadau mwy, gallai fod yn ofyniad y rhaglen i gyflawni'ch gwerthusiad eich hun fel un o delerau'r grant. Yn yr achosion hyn, fe gaiff ei nodi yn yr arweiniad i'r broses ymgeisio, ac fe gewch fwy o wybodaeth ynghylch yr hyn a ddisgwylir.

Sut gallwn ni helpu chi

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr nifer o adnoddau ar gael ar ein gwefan sy'n darparu gwybodaeth bellach am werthuso.

Os byddwch yn ymgeisio am grant, byddwch yn derbyn arweiniad gan ein staff ar werthuso, er enghraifft trwy ddigwyddiadau briffio'r rhaglen neu nodiadau arweiniad y rhaglen, neu fe gewch eich cyfeirio i ffynonellau cyngor a chymorth eraill.

Ar gyfer rhai o'n rhaglenni, rydym yn defnyddio ymgynghorwyr i gefnogi ein deiliaid grant gyda'u gwerthusiadau.

Gallai'r gefnogaeth hon gynnwys:

- cymorth dros e-bost neu'r ffôn
- adnoddau wedi'u teilwra ar wefannau penodedig
- arweiniad ysgrifenedig
- gweithdai a seminarau
- cymorth un i un

Eisiau mwy o wybodaeth?

Wedi'u rhestru isod mae adnoddau eraill sydd ar gael i'ch helpu cynllunio a datblygu'ch gwerthusiad yn fanylach. Nid rhestr hollgynhwysfawr mo hwn o bell ffordd, ac rydym wedi canolbwyntio ar adnoddau sy'n berthnasol i ledaeniad y prosiectau a gefnogwn gyda'n hariannu.

Charity Evaluation Services

ces-vol.org.uk

Mae gan Charity Evaluation Services (CES) nifer o gyhoeddiadau sy'n darparu manylion ar gynllunio gwerthusiad a'i gyflawni. Dyma dri chyhoeddiad da fel man cychwyn:

Anelir [First Steps in Monitoring and Evaluation](#) at fudiadau gwirfoddol bach a phrosiectau sydd ag ychydig iawn o brofiad o fonitro a gwerthuso. Mae'n cyflwyno ymagwedd fesul cam at sefydlu prosesau monitro a gwerthuso syml.

Mae [Camau Nesaf: Monitoring and evaluation on a shoestring](#) yn adeiladu ar yr arweiniad First Steps ac yn darparu mwy o fanylder. Anelir yr adnodd hwn at fudiadau sydd am ddatblygu eu harferion monitro a gwerthuso ymhellach.

[Mae'r canllaw adnoddau CES: evaluating outcomes and impact](#) yn darparu catalog cynhwysfawr o adnoddau a chanllawiau ar werthuso gan amrywiaeth o fudiadau. Diweddarwyd y canllaw hwn ddiwethaf yn 2013, felly mae'n eithaf diweddar.

BBC Children in need

Mae downloads.bbc.co.uk/tv/pudsey/grants/evaluation.pdf *How are you doing?* yn hunanwerthusiad a gynhyrchir gan yr apêl Plant mewn Angen. Mae'n darparu wyth cam sylfaenol ar werthuso, o gynllunio'r gwerthusiad cychwynnol i ysgrifennu'r adroddiad terfynol ac mae'n berthnasol i bob mudiad, nid dim ond y rhai sy'n gweithio gyda phlant. Byddwch yn dod o hyd i'r canllaw hwn yn eu hadran Grantiau o dan Sharing Our Learning.

BetterEvaluation

betterevaluation.org

Mae BetterEvaluation yn waith rhyngwladol ar y cyd sy'n gweithio i anelu arfer a damcaniaeth werthuso. Mae eu gwefan yn cynnwys gwybodaeth am werthuso gan gynnwys ymagweddau (megis asesiadau buddiolwyr a mapio canlyniadau) a themâu (megis gwerthuso a phlant).

Man cychwyn da yw eu Fframwaith Enfys: betterevaluation.org/sites/default/files/Rainbow%20Framework.pdf sy'n trefnu tasgau a chwestiynau gwerthuso i saith clwstwr â chodau lliw i'ch helpu cynllunio'ch gwerthusiad.

Inspiring Impact

inspiringimpact.org

Mae Inspiring Impact yn darparu offer ac adnoddau ar gyfer unigolion a mudiadau sydd am gychwyn ar y daith o fesur effaith. Mae eu hofferyn Measuring Up! yn ddull hawdd ei ddefnyddio o ddeall ac asesu effaith eich prosiect neu fudiad, ac mae eu Impact Hub yn gronfa ddata y gellir ei chwilio o offer ac adnoddau mesur effaith. Maen nhw hefyd wedi cynhyrchu Côd Ymarfer Effaith Da ac egwyddorion ac ysgogyddion arfer effaith da i Arianwyr.

NCVO

ncvo.org.uk

Mae NCVO yn darparu cyngor a chefnogaeth gydag ystod ehangach o bynciau sy'n gysylltiedig â'r sector gwirfoddol. Mae'n gweithredu KnowHow Nonprofit (knowhownonprofit.org) – gwefan sy'n cefnogi dysgu cymdeithasol yn y sector gwirfoddol. Mae'r wefan hon yn cynnwys cymuned o bobl sy'n rhannu gwybodaeth, arfer gorau a phrofiad. Mae'n darparu awgrymiadau defnyddiol a chanllawiau twt, ynghyd ag ystod o offer cefnogi eraill.

Evaluation Support Scotland

evaluationsupportscotland.org.uk

Mae'r mudiad hwn yn cynnig cyfres o Ganllawiau Cymorth ESS sy'n torri gwerthuso i lawr i briffiau ar bynciau unigol. Gallwch ddethol a dewis canllawiau penodol yn hawdd i gael gwybod mwy am eich pwnc o ddiddordeb, o sut i egluro'ch nodau ac amcanion i wybodaeth am gyllidebu ar gyfer gwerthusiad. Maent hefyd yn amlygu amrywiaeth o offer a allai fod yn ddefnyddiol wrth gynnal eich gwerthusiad.

Damcaniaeth Newid

Mae Damcaniaeth Newid yn fan cychwyn da wrth feddwl am eich gwerthusiad. Isod mae nifer o fudiadau sy'n rhoi arweiniad ar Ddamcaniaeth Newid a all eich helpu cyflawni un.

NPC

thinknpc.org/publications/creating-your-theory-of-change

thinknpc.org/publications/npcs-four-pillar-approach/

Mae NPC yn darparu arweiniad ardderchog i helpu mudiadau i feddwl am y broses damcaniaeth newid. Anelir y canllawiau hyn at fudiadau o bob maint a math. Mae nifer o ddogfennau defnyddiol eraill ar wefan NPC hefyd, felly mae'n werth bwrw golwg arni.

Nesta

nesta.org.uk/sites/default/files/theory_of_change_guidance_for_applicants.pdf

Mae arweiniad Nesta ar Ddamcaniaeth Newid yn rhoi enghraifft weledol o Ddamcaniaeth Newid ynghyd â rhestr wirio ddefnyddiol.